Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Papur i'w Drosglwyddo i'r Pedwerydd Cynulliad
23 Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ac eraill ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ar y Pwyllgor, ei aelodaeth, ei gylch gwaith a chyhoeddiadau blaenorol yma:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-sfm-home-.htm

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# 1. Cyflwyniad

## Rôl a Chylch Gwaith

1. Mae Rheol Sefydlog 19.1 yn darparu bod Pwyllgor yn cael ei sefydlu heb gyfarfod mwy na dwywaith y flwyddyn i:

> ‘gymryd tystiolaeth Prif Weinidog Cymru ar unrhyw fater sy’n berthnasol i’r ffordd y mae Gweinidogion Cymru a’r Cwnsler Cyffredinol yn arfer unrhyw rai o’u swyddogaethau (heblaw mewn perthynas â threfn busnes y llywodraeth yn y cyfarfodydd llawn).’

2. Etholwyd y Pwyllgor yn Chwefror 2009 a chyfarfu pedwar gwaith yn ystod y trydydd cynulliad. Mae’r Pwyllgor wedi chwarae rôl bwysig yn craffu ar waith y Prif Weinidog ar faterion trawsbynciol allweddol, er enghraifft:

- rhoi cytundeb Cymru’n Un ar waith;
- canlyniad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y Trysorlys a chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru;
- y setliad datganoli, fformiwla Barnett ac adroddiad Holtham; a,
- pherthynas Llywodraeth Cymru gyda San Steffan.

3. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Prif Weinidog ar ôl pob cyfarfod a cheir copïau o’r llythyron hyn, ynghyd ag agendau, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau, ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

## Rôl y Pwyllgor yn y Dyfodol

4. Mae’r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog wedi darparu fforwm allweddol ar gyfer craffu ar Lywodraeth Cymru ar draws ystod ei chyfrifoldebau ac ar faterion cyffredinol o natur gyfansoddiadol. Argymhellir yn gryf bod swyddogaethau’r Pwyllgor hwn yn cael eu cadw yn y pedwerydd cynulliad.

5. Oherwydd ei nifer fechan o Aelodau, mae’r Pwyllgor weithiau wedi profi anawsterau gyda chworwm. Argymhellir felly fod ganddo aelodaeth fwy yn y dyfodol. Efallai byddai modd sicrhau aelodaeth fwy

drwy gyfraniad Cadeiryddion Pwyllgorau eraill, ond mae'n rhaid cydbwyso hyn â chadw ystod o brofiad ymysg yr aelodaeth.

6. Argymhellir hefyd fod un o'r ddau gyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal tu allan i Gaerdydd, cyn belled ag y bod hynny'n bosibl o fewn yr amserlen, er mwyn ehangu cyrhaeddiad y Pwyllgor a galluogi ystyried materion sy'n berthnasol i wahanol ranbarthau yng Nghymru benbaladr.

**Etifeddiaeth i Bwyllgorau Olynol**

7. O bosibl bydd Pwyllgor yn y dyfodol sydd â'r cylch gwaith o graffu ar waith y Prif Weinidog yn dymuno edrych ar:

- Adroddiad Holtham a'i roi ar waith
- Awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru
- Rhaglen ddeddfu Llywodraeth Cymru
- Datganoli'r system cyfiawnder troseddol
- Colli swyddi yn y sector cyhoeddus